O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 1083 (Cy. 179)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Chwith, Terfynau Cyflymder 40 mya a 30 mya a Dileu Cyfyngiad) 2025

Gwnaed	*14 Hydref 2025*
Yn dod i rym	*15 Hydref 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd honno ac yn gyfochrog â hi, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2)(a), 82(2)(a), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adrannau 83(1) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Chwith, Terfynau Cyflymder 40 mya a 30 mya a Dileu Cyfyngiad) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw ffordd draffig sy'n ffurfio priffordd neu wedi ei chynnwys mewn priffordd, gan ei bod yn ffordd (ac eithrio llwybr beicio) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy drosti ar gyfer tramwyo cerbydau;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwahardd Troi i'r Chwith

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Cyfyngiadau

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn**.**

Dileu Cyfyngiadau

6. Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Amrywio

7. Yn erthygl 2 o Orchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2004(**1**) yn lle "672 metr" rhodder "553 metr".

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Hydref 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwahardd Troi i'r Chwith

Cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r ffordd ymyl i'r de o'r gefnffordd sy'n cysylltu â'r B4313 Redstone Road wrth Gyffordd Redstone Cross.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 71 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 82 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Penblewin.

Y darn hwnnw o'r A40 sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd ac yn gyfochrog â hi o bwynt 65 o fetrau i'r

(**1**) O.S. 2004/3053 (Cy. 262).

dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 50 metr i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 30 mya

Y darn hwnnw o'r A40 sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd ac yn gyfochrog â hi o bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at y fynedfa i Ardal Orffwys a reolir gan Lywodraeth Cymru, 398 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

ATODLEN 4
Dileu cyfyngiad ar ddarnau o'r gefnffordd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 149 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre hyd at bwynt 154 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 165 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 71 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 82 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 171 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin.